

Ordinhad 32

Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-Gangellorion

Corff Cymeradwyo:	Y Cyngor
Dyddiad Cymeradwyo:	14 Mehefin 2021
Perchennog y Polisi:	Ysgrifennydd y Brifysgol
Swyddog Polisi:	Dirprwy Ysgrifennydd
Statws y Polisi:	Newydd
Fersiwn:	

Ordinhad 32 Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-gangellorion

- 1) Bydd y Cyngor yn penodi Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-gangellorion, yn dilyn proses o ddewis. Y Cyngor fydd yn penderfynu ar nifer y Dirprwy i'r Is-ganghellor a'r Dirprwy Is-gangellorion ar argymhelliad yr Is-ganghellor.
- 2) Penodir Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-gangellorion am dymor o bedair blynedd, gyda'r posibilrwydd o'u hailbenodi am un cyfnod arall o dair blynedd yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor.
- 3) Dim ond i swyddi sy'n gofyn am arweinyddiaeth academiaidd y rhoddir teitl Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-gangellorion. Bydd swydd Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-gangellorion yn cynnwys y swyddogaethau hynny a ddirprwywyd iddynt gan yr Is-ganghellor.
- 4) Pan fydd swydd wag yn codi ar gyfer swydd Dirprwy Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-ganghellor, bydd y swydd yn cael ei hysbysebu'n fewnol a gellir ei hysbysebu'n allanol hefyd.
- 5) Yn dilyn proses o ddewis, penodir Dirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-ganghellor gan y Cyngor ar argymhelliad yr Is-ganghellor.